



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2018/19

Dyddiad cyhoeddi: 29 Gorffennaf 2019



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio **diamod** ar eich datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw faterion perthnasol i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	5
Materion pwysig sy'n deillio o'r archwiliad	5
Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018/19	7
Annibyniaeth a gwrthrychedd	7
Atodiadau	
Atodiad 1 - Llythyr Sylwadau Terfynol	8
Atodiad 2 – Adroddiad arfaethedig archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd	11
Atodiad 3 – Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018/19	14

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2019 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
- 2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
- 3 Y lefelau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gronfa Bensiwn Gwynedd yw £20,800k ar gyfer eitemau incwm a gwariant. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
- 4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2018-19, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

- 6 Rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth, a nodir yr holl feysydd nad oes profion wedi'u cynnal arnynt eto isod:
 - a. Profion i gadarnhau bod dyddlyfrau a phryniannau yn gyflawn
 - b. Adolygiad o'r adroddiad blynyddol i gadarnhau ei fod yn gyson a bod Isafsymiau Pensiwn Gwarantiedig (GMPs)/McCloud wedi'u datgelu/wedi'i ddatgelu yn yr adroddiad blynyddol
 - c. Gweithdrefnau sicrhau ansawdd terfynol
 - ch. Cael llythyr sylwadau wedi'i lofnodi gan y rheolwyr
- 7 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid) yn ystod ein cyfarfod cau ar 16 Gorffennaf 2019.

Adroddiad archwilio arfaethedig

- 8 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi **adroddiad archwilio diamod** ar y datganiadau ariannol, yn amodol ar ddatrys materion sy'n weddill uchod yn foddhaol ac unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr un a nodir yn **Atodiad 1**.
- 9 Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**.

Materion pwysig sy'n deillio o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

Mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi cael arwyddion cynnar ar gyfer prisiad 31 Mawrth 2019 mai effaith Cydraddoli Isafsymiau Pensiwn Gwarantiedig fydd tua £14.5m. Nid yw'r amcangyfrif yn berthnasol ac nid yw wedi cael ei rannu eto rhwng costau yn y gorffennol a'r dyfodol. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys y swm o £14.5m yn yr atodlen camddatganiadau nas cywirwyd fel y ddarpariaeth 'waethaf posibl' sydd ei hangen. Byddem yn disgwyl i'r swm yn y gorffennol fod gryn dipyn yn is na'r cyfanswm hwn.

Camddatganiadau a gywirwyd

Nid oedd unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd yn y datganiadau ariannol. Cafodd y datgeliadau o ran nodiadau buddsoddiadau eu hailddadansoddi eleni yn unol â'n canfyddiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol fel y nodir yn **Atodiad 3**.

Risgiau Sylweddol

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
Rheolwyr yn Anwybyddu Rheolaethau. Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Cynhaliodd fy nhîm archwilio y profion canlynol er mwyn mynd i'r afael â'r risg sylweddol sy'n gysylltiedig â Rheolwyr yn Anwybyddu Rheolaethau: <ul style="list-style-type: none">gan ddefnyddio dull gwell o ddadansoddi data i ddadansoddi holl gofnodion dyddlyfrau i weld a oedd unrhyw nodweddion o ddiddordeb ac wedyn cynnal profion sylweddol i brofi priodoldeb y dyddlyfrau a nodwyd;

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
	<ul style="list-style-type: none"> • adolygu'r gwaith o gynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion dyddlyfrau i'r cyfrifyfr ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a • gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol gan gynnwys rhai â phartion cysylltiedig. <p>Ni nodwyd unrhyw faterion ac eithrio'r sylw rheolaeth ynghylch y ffaith nad oedd cofnodion dyddlyfrau wedi'u hadolygu (fel y nodwyd yn adroddiadau blynyddoedd blaenorol).</p>

- 10 Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r awdurdod lletya ar gyfer cydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru. Trosglwyddodd Cronfa Bensiwn Gwynedd (a weinyddir gan Gyngor Sir Gwynedd) arian i Gyfleodd Byd-eang ac is-gronfeydd Twf Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru ym mis Ionawr 2019. Mae'r tîm archwilio yng Nghyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi sicrwydd archwilio i'r timau archwilio yn y cronfeydd pensiwn eraill yng Nghymru. Maent wedi gwneud y canlynol:
- cael ac adolygu'r adroddiadau sicrwydd rheolaeth ar gyfer gweithredwr y cronfeydd, rheolwyr cronfeydd perthnasol a cheidwad y cronfeydd ac wedi dod i gasgliadau yn eu cylch;
 - cadarnhau'r balansau diwedd blwyddyn ym mhob is-gronfa ecwiti; ac
 - adolygu nodyn datgelu'r pwyllgor a roddwyd i bob corff gweinyddu unigol yn ogystal â chadarnhau bod y nodyn datgelu yn gyson â datganiadau ariannol y Pwyllgor ar gyfer 2018-19.

Ni nodwyd unrhyw faterion o ran y profion a gynhaliwyd arnynt.

Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

- 11 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:
- Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.
 - Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.
 - Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.

- Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
- Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol nad ydym wedi eich hysbysu amdanynt eisoes.
- Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018/19

- 12 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn Atodiad 3. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

Annibyniaeth a gwrthrychedd

- 13 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
- 14 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydb berthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chronfa Bensiwn Gwynedd sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Drafft

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

29 Gorffennaf 2019

Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2019

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol. Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi:

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

1. Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018/19; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
2. Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.
3. Cadarnhawn fod y Gronfa yn Gronfa Bensiwn Gofrestredig. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw reswm pam y dylai statws treth y Gronfa newid.
4. Nid ydym wedi llunio unrhyw adroddiadau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ac nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw adroddiadau o'r fath wedi'u llunio gan unrhyw un o'n cynghorwyr. Cadarnhawn nad ydym yn ymwybodol o unrhyw gyfraniadau hwyr nac unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r atodlen talu/atodlen cyfraniadau sydd wedi codi nad oedd angen cyflwyno adroddiad arnynt, yn ein barn ni. Cadarnhawn hefyd nad ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion eraill sydd wedi codi y byddai angen cyflwyno adroddiad arnynt i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.
5. Rydym wedi tynnu eich sylw at yr holl ohebiaeth a nodiadau o gyfarfodydd â rheoleiddwyr.
6. Cadarnhawn, o dan adran 27 o Ddeddf Pensiynau 1995, nad oes unrhyw berson sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Gronfa yn gysylltiedig â Swyddfa Archwilio Cymru, nac yn aelod cyswllt ohoni, a fyddai'n golygu bod Swyddfa Archwilio Cymru yn anghymwys i weithredu fel archwilydd y Gronfa.

Tudalen 8 o 20 - **Gwall! Defnyddiwch y tab Cartref i ddefnyddio Heading 1 gyda'r testun yr ydych am iddo ymddangos yma.**

7. Ni fu unrhyw newidiadau i reolau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn a hyd at y dyddiad presennol.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

Mynediad llawn i'r canlynol:

1. yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
2. gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol i chi, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt;
3. Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
4. Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gronfa Bensiwn Gwynedd ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.
5. Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
6. Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
7. Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.
8. Mae'r wybodaeth am Aelodau a geir yn yr adroddiad blynyddol yn gywir ac mae'n rhoi darlun gwir a theg am nifer yr aelodau sydd yn y Gronfa Bensiwn.

Sylwadau ar y datganiad ariannol

9. Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.
10. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.
11. Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.
12. Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.
13. Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a

chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

14. Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a gyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Sylwadau gan Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Gwynedd

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Gwynedd ar 29 Gorffennaf 2019.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

.....

Dafydd L Edwards

Pennaeth Cyllid

Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

.....

Llofnodwyd gan:

.....

Y Cyngorydd John Brynmor Hughes

Cadeirydd

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Dyddiad:

.....

Atodiad 2

Adroddiad arfaethedig archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol y gronfa pensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, ac o swm a natur ei hasedau a'i rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y gronfa pensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; ac
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa pensiwn i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Adrodd ar ofynion eraill

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; ac
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y datganiadau ariannol, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r gronfa pensiwn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybair nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol

www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 3

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2018-19

Nid oes gennym unrhyw argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ar gyfer 2018-19.

Gwaith dilynol ar yr argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18

1. Cysoni gwerth y farchnad – 'Insight'	
Canfyddiadau	<p>Pan adolygwyd adroddiad 'Insight' 2017/18, gwnaethom nodi gwerthiannau gwerth £79,950,000 a phryniannau gwerth £79,950,000 y dylid bod wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol. Trafodion cronfeydd hylifedd yw'r rhain lle rydym yn prynu ac yn gwerthu unedau mewn cronfa ac maent yn drafodion buddsoddi gwirioneddol.</p> <p>Gwnaethom hefyd nodi cyfrif arian parod - IS 2497 a oedd yn cynnwys cyfanswm o £20,908 ar ddiwedd y flwyddyn, nad oeddent wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol.</p>
Blaenoriaeth	Canolig
Argymhelliad	Argymhellwn y dylid cwblhau ymarfer cysoni arian parod llawn bob chwarter er mwyn sicrhau y nodir pob un o'r eitemau hyn ac y rhoddir cyfrif amdanynt yn y dyfodol.
Ymateb rheolwyr	Diwygiwyd y swm o £79.950m yn y cyfrifon. Delir y swm o £20,8908 mewn arian parod yng Nghronfa 'Insight', felly nid yw'n ymddangos fel swm ar wahân yn y cyfrifon. Mae gennym gyfanswm gwerth y gronfa yn ein cyfrifon.
Dyddiad gweithredu	5/09/18
Canfyddiad 2018-19	Ni nodwyd unrhyw faterion yn y flwyddyn gyfredol.
Statws:	Caewyd

2. Cysoni cyfraniadau misol	
Canfyddiadau	<p>Yn ystod ein hadolygiad o'r rheolaethau sy'n ymwneud â chywirdeb a chyflawnder data cyfraniadau a geir gan Gyflogwyr y Gronfa, nodwyd gennym, er bod y cyfraniadau a geir yn cael eu hailgyfrifo bob mis, fod y rhain yn seiliedig ar ffurflen cyfraniadau misol a gwblheir gan y cyflogwr yn unig, nad yw'n cael ei gwirio yn erbyn unrhyw ddata sylfaenol ar hyn o bryd. Nid yw'r Gronfa yn rhoi unrhyw sicrwydd bod y ffigurau yn y ffurflenni hyn yn gywir nac yn gyflawn.</p> <p>Er mai'r Cyflogwr sy'n gyfrifol am hyn, dylai'r Gronfa allu cael mwy o sicrwydd ynglŷn â chywirdeb a chyflawnder cyfraniadau. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl gwybod faint o aelodau y mae'n ymwneud â nhw, unrhyw newidiadau ac ati</p>

Blaenoriaeth	Uchel
Argymhelliad	Pan wnaethom ymholiadau cadarnhawyd bod rheolwyr yr awdurdod sy'n gweinyddu'r gronfa wedi cyflwyno 'rhestr wirio cydymffurfiaeth', y maent yn gofyn i swyddogion cyllid statudol cyflogwyr, neu swyddogion cyfatebol, ei llofnodi, gan gadarnhau bod gwahanol brosesau a gwiriadau wedi'u cynnal (bod cyfraniadau yn unol â bandiau %, dechreuwyr, ymadawyr, manylion cyflog cywir ac ati) a bod gwybodaeth a chyfraniadau a drosglwyddwyd i'r gronfa yn gywir ac yn unol â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ychwanegol, er nad yw'n rhoi mynediad i'r Gronfa at y data manwl o hyd. Argymhellwn y dylid defnyddio'r rhestr wirio ym mhob achos yn y dyfodol ac, os oes modd, y dylid cynnal gwiriadau pellach er mwyn sicrhau bod data sylfaenol yn gyflawn ac yn gywir. Rydym ar ddeall bod y rheolwyr yn gwneud y rhestr wirio yn orfodol o'r flwyddyn nesaf ymlaen, os nad yw cywirdeb data yn cael ei ategu gan ryngwynebau 'i-Connect' ar-lein.
Ymateb rheolwyr	Mae'r Gronfa yn dibynnu ar yr adroddiadau gan y cyflogwyr a bydd y rhestr wirio cydymffurfiaeth wedi'i llofnodi yn ddefnyddiol. Nid oes gan y tîm Cyfrifon yr adnoddau i gysoni yn ôl i gyflogres cyflogwyr unigol.
Dyddiad gweithredu	Mawrth 2019
Canfyddiad 2018-19	Canfyddiad wedi ei ailgodi
Statws:	Agored

3. Cyfraniadau misol hwyr

Canfyddiadau	Pan wnaethom adolygu rheolaethau misol allweddol ynghylch derbyn cyfraniadau, nodwyd gennym, os na chaiff cyfraniadau eu derbyn erbyn y dyddiad penodedig, y bydd tîm y cyfrifyddion pensiwn yn mynd ar ôl yr aelodau. Ar ôl ymholi ymhellach, gwnaethom gadarnhau, oherwydd prinder staff, nad oedd amseroldeb cyfraniadau yn ystod 17/18 yn cael eu monitro o gwbl.
Blaenoriaeth	Canolig
Argymhelliad	Argymhellwn y dylid aildechrau monitro cyfraniadau. At hynny, argymhellwn y dylid rhoi proses ar waith er mwyn helpu i liniaru cyfraniadau hwyr cyn iddynt ddigwydd, yn hytrach na mynd ar ôl y rhai sydd eisoes yn hwyr yn unig.
Ymateb rheolwyr	Oherwydd absenoldebau staff dros y ddwy flynedd ddiwethaf nid oedd hyn yn bosibl. Gyda thîm llawn bydd hyn yn bosibl yn 2018/19
Dyddiad gweithredu	Mawrth 2018
Canfyddiad 2018-19	Mae hyn wedi cael ei wneud bob mis yn 2018/19.
Statws:	Caewyd

4. Datgelu Hierarchaeth Gwerthoedd Teg

Canfyddiadau	<p>Pan adolygwyd dosbarthiadau hierarchaeth gwerthoedd teg offerynnau ariannol y Gronfa, nodwyd gennym y dylai Cronfa Ymddiriedolaeth Eiddo UBS Triton, cronfa Eiddo Tiriog Craidd – Ewro UBS (Lux) a chronfa Ymddiriedolaeth Eiddo Lothbury oll gael eu dal ar lefel 3 oherwydd y cyfyngiadau adbrynu sydd ar waith. Fodd bynnag, i ddechrau roeddent yn cael eu dal ar lefel 2.</p> <p>Hefyd, roedd sawl cronfa yn cael eu dal ar Lefel 1 a ddylai fod wedi bod yn cael eu dal ar Lefel 2 am nad ydynt yn cael eu masnachu drwy eu cyfnewid.</p>
Blaenoriaeth	Isel
Argymhelliad	Argymhellwn y dylid adolygu'r rhain yn ofalus yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y dosbarthiad yn briodol i bob cronfa.
Ymateb rheolwyr	Diwygiwyd hyn yn y cyfrifon.
Dyddiad gweithredu	Dd/G
Canfyddiad 2018-19	Ni nodwyd unrhyw faterion yn y flwyddyn gyfredol.
Statws:	Caewyd

5. Datgeliadau o ran nodiadau buddsoddiadau

Canfyddiadau	<p>Pan adolygwyd nodiadau buddsoddiadau a nodiadau incwm o fuddsoddiadau yn y datganiadau ariannol, nodwyd gennym nad ydynt yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd yn unol â gofynion presennol IFRS a CIPFA. Dylai'r dadansoddiad rannu'r buddsoddiadau o dan y penawdau hyn:</p> <ul style="list-style-type: none">- Bondiau (a ddadansoddiwyd rhwng y sector cyhoeddus ac arall)- Ecwitiau (gan gynnwys cyfranddaliadau y gellir eu trosi)- Cyfryngau buddsoddi cyfun (a ddadansoddiwyd rhwng ymddiriedolaethau uned, polisïau yswiriant a chronfeydd a reolir unedol, sy'n dangos y cronfeydd hynny sydd wedi'u buddsoddi mewn eiddo ar wahân)- Eiddo- Adneuoan arian parod- Balansau buddsoddiadau eraill <p>At hynny, dylai'r 3 llinell ar y datganiadau ariannol a ddangosir isod gael eu grwpio ynghyd yng nghyfrif y gronfa a'u galw'n "Incwm arall"</p> <ul style="list-style-type: none">- Llog ar gyfraniadau hwyr- Incwm o gyfrifiadau ysgaru- Incwm o gyfrifiadau gwerth trosglwyddo
Blaenoriaeth	Isel
Argymhelliad	Argymhellwn y dylid ailddadansoddi balansau buddsoddiadau ac incwm o fuddsoddiadau yn unol â'r categorïau uchod.
Ymateb rheolwyr	Oherwydd absenoldebau staff dros yr 16 mis diwethaf nid oedd hyn yn bosibl. Byddwn yn ailddadansoddi cyfrifon 2018/19.

Dyddiad gweithredu	Dd/G
Canfyddiad 2018-19	Dadansoddwyd y nodiadau yn gywir yn y flwyddyn gyfredol.
Statws:	Caewyd

Y canfyddiadau isod yw'r canfyddiadau agored o archwiliad 2016/17:

6. Nifer yr Aelodau	
Argymhelliad	<p>Argymhellir y dylai'r Rheolwr Pensiynau ddatblygu adroddiad Altair a all gyfrif cyfanswm y newidiadau ôl-weithredol i ddata aelodau a nodi newidiadau unigol.</p> <p>At hynny, argymhellir y dylai Gweinyddwr Cronfa Ddata'r Pensiwn gynnal proses echdynnu data mewn perthynas â data'r Aelodau ar 31 Mawrth neu mor agos â phosibl at y dyddiad hwnnw.</p> <p>Argymhellir hefyd y dylai Rheolwr y Gronfa Bensiwn gynnal proses gysoni rhwng nifer yr aelodau a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol a nifer ddiwygiedig yr aelodau.</p>
Blaenoriaeth	Canolig
Canfyddiad 2017-18	<p>Nodwyd gennym na allai y Rheolwr Pensiynau ddarparu cysoniad o ran nifer yr aelodau rhwng 2016-17 a 2017-18.</p> <p>Dylai'r cysoniad ddangos symudiadau aelodau yn y flwyddyn ariannol a newidiadau ôl-weithredol a ddiwygiodd unrhyw ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Byddai'r cysoniad hwn yn ein galluogi i archwilio'r symudiadau o ran nifer yr aelodau, nad ydym wedi gallu ei wneud.</p>
Ymateb rheolwyr	<p>Caiff adroddiad Altair ei ddatblygu er mwyn nodi'r symudiadau o ran yr aelodau rhwng dau ddyddiad penodol. Dylai hyn ein galluogi i gynnal proses gysoni.</p> <p>Ni fydd cynnal yr ymarfer echdynnu data mewn perthynas â data'r aelodau yn agos at 31 Mawrth yn datrys y broblem am fod data mis Mawrth yn cael eu cofnodi yn ystod mis Ebrill pan gânt eu derbyn gan gyflogwyr.</p>
Canfyddiad 2018-19	<p>Nodwyd gennym na allai y Rheolwr Pensiynau ddarparu cysoniad o ran nifer yr aelodau rhwng 2017-18 a 2018-19.</p> <p>Dylai'r cysoniad ddangos symudiadau aelodau yn y flwyddyn ariannol a newidiadau ôl-weithredol a ddiwygiodd unrhyw ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Byddai'r cysoniad hwn yn ein galluogi i archwilio'r symudiadau o ran nifer yr aelodau, nad ydym wedi gallu ei wneud.</p>
Statws:	<p>Argymhelliad wedi ei ailgodi</p> <p>Sylw wedi'i ddiweddarau gan y Rheolwyr: Mae hyn yn ddyheadol ac yn gofyn am ddatblygiadau meddalwedd trydydd parti hyd yn oed os oes modd ei gyflawni maes o law</p>

7. Ni chaiff Cyfrifon Crog eu Cysoni'n Ffurfiol

Argymhelliad y Flwyddyn Flaenorol	Argymhellir y dylid adolygu cyfrifon crog y Gronfa yn fisol.
Blaenoriaeth	Canolig
Canfyddiad 2017-18	Nodwyd gennym nad yw'r cyfrif crog a ddefnyddir i ddyrannu cyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr bron bob dydd a'r cyfrif crog sy'n cofnodi trafodion rhwng y Gronfa Bensiwn a Chyngor Gwynedd yn cael eu cysoni na'u cymeradwyo'n ffurfiol fel y'u paratowyd nac yn cael eu hadolygu wedyn ar wahân.
Ymateb Rheolwyr	Ni wneir unrhyw ymateb penodol am fod yr argymhelliad yn canolbwyntio i raddau helaeth ar adolygu dyddlyfrau.
Canfyddiad 2018-19	Nodwyd nad yw'r cyfrifon crog yn cael eu cysoni'n ffurfiol bob mis ar hyn o bryd.
Statws	Diwygiwyd yr Argymhelliad: Argymhellir y dylid cysoni ac adolygu cyfrifon crog y Gronfa bob mis.
Ymateb rheolwyr	Oherwydd absenoldebau staff dros y ddwy flynedd ddiwethaf nid oedd hyn yn bosibl. Gyda thîm llawn bydd hyn yn bosibl yn 2019/20.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru